



Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Cynllun Iaith Gymraeg

Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd yn
unol â Deddf Iaith Gymraeg 1993

Cymeradwywyd y Cynllun gan Fwrdd yr
Iaith Gymraeg o dan Adran 14(1) Deddf
Iaith Gymraeg 1993 ar 13eg o

Ragfyr 2011

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi mabwysiadu'r
egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn
gyfartal wrth gynnal ei waith cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r cynllun yn amlinellu sut bydd Comisiwn
Coedwigaeth Cymru yn rhoi'r egwyddor hon ar waith wrth
ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.



Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	4
2. Cefndir y sefydliad	5
3. Gweledigaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru	7
4. Cynllunio gwasanaethau, gweithio mewn partneriaeth a chyflawni	8
4.1 Polisiau, deddfwriaeth a mentrau	8
4.2 Cyflwyno gwasanaethau	8
4.3 Safonau ansawdd	9
4.4 Swyddogaethau rheoliadol a gwasanaethau a ymgwymerir ar ein rhan gan drydydd partion	9
4.5 Dyfarnu grantiau	10
5. Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	10
5.1 Gohebiaeth ysgrifenedig	10
5.1.1 Gohebiaeth rydym yn ei derbyn	10
5.1.2 Gohebiaeth rydym yn dechrau	10
5.2 E-bost	11
5.3 Cyfathrebu dros y ffôn	11
5.3.1 Cyfarchiad cychwynnol	11
5.3.2 Ymdrin â galwadau	11
5.4 Cyfarfodydd cyhoeddus a chynadleddau	11
5.4.1 Cyfarfodydd cyhoeddus a chynadleddau – trefniadau gweinyddol	11
5.4.2 Cyfarfodydd mewnol y staff	12
5.4.3 Cyfarfodydd/ymweliadau gan ysgolion a grwpiau gwirfoddol	12
6. Delwedd gyhoeddus Comisiwn Coedwigaeth Cymru	12
6.1 Ymgyrchoedd cyhoeddus, arddangosfeydd a hysbysebu	12
6.2 Cyhoeddiadau	13
6.3 Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig	14
6.4 Gwefan a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu	14
6.5 Hunaniaeth gorfforaethol	14



Cynnwys	Tudalen
6.6 Arwyddion yng Nghymru	15
6.7 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff, datganiadau i'r wasg a chysylltu â'r cyfryngau	15
7. Rhoi'r cynllun ar waith	16
7.1 Staffio	16
7.2 Strategaeth Sgiliau Dwyieithog	16
7.3 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg	17
7.4 Gofynion llenwi swyddi	17
7.4.1 Ymrwymadau'r timau	17
7.4.2 Ymgeiswyr allanol	18
7.4.3 Cyfweliad	18
7.5 Mentrau allanol	18
7.6 Dysgu a datblygu staff	19
8. Trefniadau gweinyddol mewnol i roi'r cynllun ar waith	19
8.1 Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol	20
8.2 Monitro'r cynllun	20
8.3 Adolygu a diwygio'r cynllun	21
8.4 Ymdrin â chwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella	21
Atodiad 1 Gweithleoedd dwyieithog	22
Atodiad 2 Cynllun gweithredu	24

1. CYFLWYNIAD

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n egluro sut bydd yn cyflwyno'r gwasanaethau hyn yn Gymraeg. Mae cynllun y Comisiwn Coedwigaeth yn sôn am y gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn sefydlu'r egwyddor y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn disgrifio sut bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn gweithredu'r egwyddor hon lle bo hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn ymarferol resymol.

Yn y cynllun hwn, mae'r 'cyhoedd' yn golygu unigolion, pobl gyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd a sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn cael eu disgrifio fel y 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pobl sy'n gweithredu mewn rôl sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. Felly, nid yw term y 'cyhoedd' yn cynnwys pobl â swyddogaethau swyddogol sy'n ymwneud â'r cyhoedd pan maent yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hyn, hyd yn oed os ydynt yn bobl gyfreithiol.

Cymeradwywyd y cynllun gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14 y Ddeddf. Daeth y cynllun gwreiddiol i rym ar 1 Ebrill 2000 ac fe'i hadolygwyd a'i gymeradwyo ar 8 Mehefin 2007. Cafodd y cynllun hwn sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 13eg o Ragfyr 2011.

Mae mwy o wybodaeth am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg i'w canfod yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg <http://www.byig-wlb.org.uk/english/publications/Pages/PublicationItem.aspx?puburl=/English/publications/Publications/120.pdf>

Ers cyhoeddi ein cynllun gwreiddiol, rydym wedi rhoi gofynion y cynllun ar waith yn ogystal â monitro ein cynnydd yn erbyn y targedau a bennwyd a chyflwyno adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn flynyddol. Mae gan y Comisiwn Coedwigaeth Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg ac mae Hyrwyddwyr y Gymraeg wedi'u henwebu ym mhob un o'i swyddfeydd yng Nghymru. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi paratoi Cynllun Gweithredu'r Gymraeg sy'n nodi sut bydd yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Gan fod ein perthynas a'n cysylltiad â Llywodraeth Cymru wedi datblygu er 2000, rydym ni a Bwrdd yr Iaith Gymraeg o'r farn fod angen diwygio'r cynllun i ddiweddarau sawl un o'n hymrwymadau a'n targedau.

Wrth baratoi'r fersiwn diwygiedig hwn o'r cynllun, rydym wedi bachu ar y cyfle i fireinio, cryfhau ac ehangu geiriad nifer o ddulliau mesur drwy eu haddasu a'u gwneud yn fwy eglur.

2. CEFNIDIR Y SEFYDLIAD

CYNLLUN GWEITHREDU CENEDLAETHOL AR GYFER CYMRU DDWYIEITHOG

Ym mis Chwefror 2003, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Iaith Pawb*, (<http://wales.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/iaithpawb/?lang=en>) sef 'cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog'. Y cynllun hwn oedd y fframwaith gweithredu cenedlaethol cyntaf a baratowyd ar lefel lywodraethol i warchod, cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg ledled Cymru. Fel sefydliad sydd wedi ymrwymo i warchod coetiroedd Cymru ac sy'n gweithredu fel Adran Goedwigaeth Llywodraeth Cymru, rydym yn cefnogi nodau'r strategaeth hon ar gyfer amrywiaeth ddiwylliannol. Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig fel cyfraniad pwysig gan y sector tuag at gyflawni'r strategaeth genedlaethol ehangach hon.

DATGANIAD O EGWYDDORION

Darparu gwasanaethau'n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg yw un o'r materion cydraddoldeb statudol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ers cyflwyno *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*. (<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/contents>). Rydym yn cydnabod bod iaith yn rhan hanfodol o hunaniaeth unigolyn a bod y cyhoedd yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn yr iaith sydd orau ganddynt. Drwy roi'r dulliau mesur yn y cynllun hwn ar waith, byddwn yn rhoi pwyslais ar barchu hawliau a dyheadau teg defnyddwyr y Gymraeg. Felly, mae ein strategaeth ar gyfer cynllunio ein gwasanaethau yn seiliedig ar y gred ei bod yn deg ac yn rhesymol i'r cyhoedd yng Nghymru ddisgwyl cael gwasanaeth neu ohebiaeth gan y Comisiwn Coedwigaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn unol â'u dewis.

Daeth Mesur yr Iaith Gymraeg i rym ar 9 Chwefror 2011

<http://wales.gov.uk/topics/welshlanguage/legislation/?skip=1&lang=cy>

Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn unol â'r ddeddfwriaeth.

STATWS

Y Comisiwn Coedwigaeth yw adran y Llywodraeth sy'n gyfrifol am roi cyngor am bolisiau coedwigaeth ym Mhrydain Fawr a'u cyflwyno. Cyn datganoli, Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, y Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru oedd yn gyfrifol am y Comisiwn Coedwigaeth. Newidiodd y trefniadau hyn ar ôl datganoli. Erbyn hyn, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn atebol i Lywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru sydd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldebau ffurfiol parthed coedwigaeth yng Nghymru, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gyfeiriad y Comisiwn Coedwigaeth a chyfrifoldeb ariannol dros ei weithgareddau yng Nghymru. Mae meysydd sydd heb eu datganoli fel polisi rhyngwladol, iechyd planhigion, ymchwil a safon coedwigoedd y DU yn parhau i fod yn feysydd ar lefel Prydain Fawr.

Crëwyd Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar 1 Ebrill 2003 ac mae'n gweithredu fel adran goedwigaeth Llywodraeth Cymru i gynghori am bolisiau coedwigaeth a'u cyflwyno. Mae hefyd yn rheoli'r stad goedwigaeth genedlaethol yng Nghymru sy'n cynnwys tua 125,000 hectar er lles y

cyhoedd. Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy sy'n parhau i fod yn gyfrifol am bolisiau coedwigaeth a'i fframwaith ariannol.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gorff cyhoeddus trawsffiniol sy'n cynnwys Cadeirydd a Bwrdd o Gomisiynwyr. Mae cyfrifoldebau a phwerau'r Comisiynwyr Coedwigaeth yn tarddu'n bennaf o Ddeddf Coedwigaeth 1967 a Deddf Iechyd Planhigion 1967.

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1967/10>

Mae sawl deddf ac offeryn statudol Prydain Fawr arall sy'n berthnasol, gan gynnwys Is-ddeddfau Comisiwn Coedwigaeth 1982. <http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-677JBL>

NATUR Y BUSNES, EIN STRATEGAETH, NODAU AC AMCANION

Strategaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei nodau a'i hamcanion ar gyfer holl goetiroedd a choed Cymru yn ei strategaeth Coetiroedd i Gymru. <http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-7GDE8V>

Fe'i cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2001 ac fe'i diwygiwyd yn 2009 gan bennu cynllun 50 mlynedd ar gyfer coetiroedd a choed a sut gall pobl Cymru elwa arnynt. Mae'r strategaeth hefyd yn edrych ar eu rôl o ran cyflwyno manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn ogystal â sut gallent gyfrannu at fynd i'r afael â lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Ystyrir pob coeden yng Nghymru yn y strategaeth - mewn ardaloedd gwledig a threfol, cyhoeddus a phreifat.

Nodau ac amcanion

Mae nodau ac amcanion Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn deillio o Goetiroedd i Gymru ac amcanion ehangach Llywodraeth Cymru. Mae ymateb Comisiwn Coedwigaeth Cymru i'r heriau a'r dyheadau hyn wedi'u nodi yn y cynllun corfforaethol "Ein nod a'n cyfeiriad".

(http://alpacorn.forestry.gov.uk:7777/portal/page?_pageid=33,1681837&_dad=portal&_schema=P ORTAL)

Dyma gynllun tair blynedd sy'n cael ei ddiweddarau bob blwyddyn. Yn y cynllun corfforaethol, mae gwaith CCC yn seiliedig ar 10 rhaglen waith eang a ddsberthir o dan 4 pwnc:

- Ymateb i'r newid yn yr hinsawdd
- Coetiroedd i Bobl
- Datblygu sector coedwigaeth gystadleuol ac integredig
- Gwella safon yr amgylchedd

Fel adran goedwigaeth Llywodraeth Cymru, mae ein gwaith naill ai'n cael ei gynnal yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol neu mae'n dylanwadu arnynt. Cynhelir ein gwaith mewn sawl ffordd:

- Cadw llygad ar y coetiroedd cyhoeddus rydym yn eu rheoli ar ran Llywodraeth Cymru
- Busnes yn y sector coedwigaeth
- Grantiau
- Rheoleiddio
- Datblygu polisiau
- Cyfathrebu ac ymchwil
- Partneriaethau

Lleoliad

Yn Aberystwyth mae Swyddfa Genedlaethol Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac yno rydym yn cyflawni'r rhan fwyaf o'n swyddogaethau adrannol a chorfforaethol ochr yn ochr ag is-swyddfeydd eraill ledled Cymru.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth ehangach yn gweithredu ar draws Lloegr a'r Alban ac mae ganddo hefyd Asiantaeth Ymchwil Weithredol [Forest Research], sy'n gweithredu ledled Prydain.

3. EIN GWELEDIGAETH

GWELEDIGAETH Y COMISIWN COEDWIGAETH AR GYFER Y PEDAIR BLYNEDD NESAF

Yn ystod y cyfnod cychwynnol pan roddwyd ein Cynllun Iaith Gymraeg ar waith, canolbwyntiwyd ar osod seiliau cadarn ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog a chynnig dewis iaith wrth ymdrin â'r cyhoedd. Erbyn hyn, rydym wedi paratoi gweledigaeth er mwyn i ni ddatblygu fel sefydliad dwyieithog yn y dyfodol. Drwy roi'r cynllun diwygiedig hwn ar waith dros y degawd nesaf, byddwn yn ceisio cyflawni sawl amcan hirdymor. Mae Strategaeth Ddwyieithog ar waith erbyn hyn i roi'r arweiniad statudol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar waith a chynnig dull sy'n galluogi Comisiwn Coedwigaeth Cymru i gynllunio gweithlu dwyieithog ar gyfer y dyfodol.

Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn

- gweithredu fwyfwy fel sefydliad dwyieithog naturiol a chynllunio i gynyddu cyfran y staff sydd â sgiliau siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg er mwyn annog ein staff i ymfalchïo yn y Gymraeg ac ymrwymiad y Comisiwn Coedwigaeth at ddarparu gwasanaethau dwyieithog;
- creu mwy o ddiddordeb yn ein gwaith ymysg siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i geisio denu mwy o ymgeiswyr o gymunedau Cymraeg i ddilyn gyrfaoedd gyda'r Comisiwn Coedwigaeth;
- meithrin mwy o arbenigwyr sy'n gallu siarad Cymraeg mewn meysydd coedwigaeth, y gymuned a'r amgylchedd sy'n berthnasol i waith y Comisiwn Coedwigaeth er mwyn i fwy o Gymraeg gael ei defnyddio mewn meysydd pwnc arbenigol;
- dylanwadu ar sefydliadau ac unigolion eraill o fewn a thu allan i sectorau coedwigaeth ac amgylcheddol i weithredu yn unol ag arferion dwyieithog da;
- chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo a datblygu sut y defnyddir y Gymraeg yn rhagweithiol drwy ein gwasanaethau a'n harbenigeddau;
- manteisio ar gyfleoedd i gyfleu ein hymrwymiad at y Gymraeg ochr yn ochr â'n gwaith o ran rheoli a diogelu coetiroedd Cymru.

4. CYNLLUNIO GWASANAETHAU, GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH A CHYFLAWNI

4.1 POLISIÂU, DEDDFWRIAETH A MENTRAU

Bydd y Cyfarwyddwr a Bwrdd Rheoli Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gwneud yn siŵr bod egwyddor cydraddoldeb ieithoedd yn cael ei hystyried ym mhob elfen o'n gwaith a bod pob Uned yn gweithredu'n unol â'r cynllun. Bydd cymorth ariannol ar gyfer y cynllun drwy'r gwariant sydd wedi'i gynllunio ar hyn o bryd.

Bydd pob prosiect a pholisi y bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ei lunio neu'n ei weithredu yn gorfod cydymffurfio â gofynion y cynllun hwn. Wrth gynllunio a pharatoi unrhyw brosiectau a pholisïau o'r fath, byddwn yn gwneud yn siŵr eu bod yn cyd-fynd â nodau'r cynllun hwn.

Bydd ein dogfennau ymgynghori yn trafod y berthynas rhwng y Gymraeg â'r polisïau, y cynlluniau a'r gwasanaethau sy'n cael eu datblygu.

Wrth i ni gyfrannu at ddatblygu polisïau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth a arweinir gan sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn modd sy'n cyd-fynd â'r cynllun hwn.

Swyddog y Gymraeg, sy'n atebol yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru, fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r cynllun bob dydd ac am gynnal proses fonitro. Mae enw'r swyddog i'w weld yn llenyddiaeth y Comisiwn Coedwigaeth ac ar ein gwefan. Cyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru a'r Bwrdd Rheoli fydd yn gyfrifol am amlygu'r angen am unrhyw newidiadau esblygol i'r cynllun ac am gyflwyno'r adroddiadau gofynnol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Swyddog y Gymraeg fydd y ddolen gyswllt ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â'r cynllun a'i weithredu.

4.2 CYFLWYNO GWASANAETHAU

Bydd ein harferion cyffredin yn gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg. Mae gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg yn seiliedig ar gyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd drwy ddull sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ysgwyddau'r unedau.

- Bydd Rheolwyr Unedau'n amlygu sut bydd eu gwasanaethau'n cael eu cyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg fesul tîm;
- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod copi o'r cynllun ac arweiniad i staff am wasanaethau penodol ar gael i bob aelod o staff;
- Bydd aelodau'r Bwrdd Rheoli a Rheolwyr Unedau'n gyfrifol am annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;
- Caiff staff ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn eu gwaith cyn belled â bod hynny'n cyd-fynd â'r cynllun ac nad yw'n amharu ar gyfathrebu mewnol;
- Bydd y gwasanaethau a roddir yn Gymraeg yn gyfartal â'r rhai a roddir yn Saesneg.

Wrth weithio gyda busnes arall, byddwn yn gwneud hynny yn yr iaith sydd orau ganddynt.

Byddwn yn cadw at arweiniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg am gyflwyno contractau gwasanaethau cyhoeddus a'r iaith Gymraeg ://www.byig-wlb.org.uk/English/using/Pages/ContractauGwasanaethauCyhoeddus.aspx

4.3 SAFONAU ANSAWDD

Bydd gwasanaethau safonau ansawdd a roddir yn Gymraeg a Saesneg o'r un ansawdd a safon. Byddant yn cael eu cyflwyno yn unol â'r un amserlen ac yn cael eu hadolygu'n barhaus i wneud yn siŵr bod safonau'n gyfartal.

4.4 EIN SWYDDOGAETHAU RHEOLIADOL A GWASANAETHAU A GYNHELIR AR EIN RHAN GAN DRYDYDD PARTI

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti yn cyd-fynd â'r rhannau perthnasol o'r cynllun os ydynt yn gysylltiedig â rhoi gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr bod trydydd parti yn cyflwyno'r gwasanaethau yn unol â'r cynllun.

Bydd pob contract sy'n rhoi gwasanaeth i'r cyhoedd yn cael ei archwilio i wneud yn siŵr bod y contract yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg.

Os ni yw'r arweinydd strategol neu ariannol mewn partneriaeth ffurfiol, byddwn yn gwneud yn siŵr y bydd unrhyw agweddau sy'n ymwneud â gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Wrth ymuno â phartneriaeth ffurfiol o dan arweiniad sefydliad arall, bydd ein mewnbwn yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

Os ydym yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Byddwn yn cadw at arweiniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg am bartneriaethau a'r iaith Gymraeg. (<http://www.byig-wlb.org.uk/English/using/Pages/Partneriaethaua'rIaithGymraeg.aspx>)

4.5 DYFARNU GRANTIAU

Wrth ddyfarnu grantiau ar gyfer gweithgareddau a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys mynediad cyhoeddus a hamdden, byddwn yn cynnwys amodau mewn cysylltiad â defnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg am ddyfarnu grantiau.

5. YMDRIN Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

5.1 GOHEBIAETH YSGRIFENEDIG

5.1.1 Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Byddwn yn ceisio ateb llythyrau neu negeseuon e-bost o fewn yr un cyfnod ag ar gyfer gohebiaeth yn Saesneg (cydnabod ein bod wedi derbyn yr ohebiaeth ymhen 2 ddiwrnod gwaith ac ateb ymhen 20 diwrnod gwaith).

Byddwn yn gohebu yn Gymraeg yn y lle cyntaf ar ôl cael sgwrs wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan y derbynnydd gael gohebiaeth yn Saesneg.

5.1.2 Pan fyddwn yn gohebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad yn y lle cyntaf, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well ganddynt i ni ohebu yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig. Bydd pob llythyr safonol a chylchlythyrau ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog. Bydd pob deunydd swyddfa yn ddwyieithog, gan gynnwys teitlau, cyfeiriadau a logos.

Bydd atodiadau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog. Bydd atodiadau a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd pob gohebiaeth Gymraeg copi caled a gyflwynwn wedi'i llofnodi'n Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Mae gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru wasanaeth cyfieithu i gynorthwyo gyda gohebiaeth a gwneud yn siŵr ei bod yn gywir. Gyda chymorth technoleg gyfrifiadurol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, bydd staff yn cael eu hannog i ateb gohebiaeth gyffredin/annhechnegol Cymraeg ar eu pen eu hunain. Bydd staff sy'n gallu ysgrifennu'n dda yn Gymraeg yn gallu ateb eu gohebiaeth ysgrifenedig eu hunain drwy ddefnyddio'r dechnoleg gyfrifiadurol a ddarperir. Os nad yw'r staff yn gallu ysgrifennu'n ddigonol yn Gymraeg, bydd angen i rywun ddarllen eu gwaith i wirio'r safon.

Bydd CCC yn cynnal cofnod cyfoes o'r rhai a fyddai'n well ganddynt gyfathrebu â ni yn Gymraeg.

5.2 E-BOST

Bydd enw, manylion y swydd a manylion cyswllt yn ddwyieithog ar lofnodion awtomatig e-bost yr holl staff.

Bydd pob neges e-bost i ddweud nad yw'r staff yn y swyddfa yn ddwyieithog.

5.3 CYFATHREBU DROS Y FFÔN

Rydym yn croesawu ymholiadau dros y ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd galwadau i ganolfan gysylltu genedlaethol Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cael eu hateb gan gyfarchiad dwyieithog. Byddwn yn ymateb i'r sawl sy'n galw yn yr iaith sydd orau ganddynt.

5.3.1 CYFARCHIAD CYCHWYNNOL

Bydd ein holl staff yn defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol, gan gynnwys eu ffonau symudol.

Bydd neges ddwyieithog wedi'i recordio ar beiriannau ateb swyddfeydd lleol. Bydd y neges Gymraeg yn dod cyn y neges Saesneg.

5.3.2 YMDRIN Â GALWADAU

Os yw'r sawl sy'n galw eisiau siarad Cymraeg, bydd staff ein canolfan gysylltu yn ceisio cysylltu â siaradwr Cymraeg i ymdrin â'r ymholiad.

Mae cyfeirlyfr ffôn mewnol y Comisiwn, sydd ar gael ar y we i'r holl staff a thîm y ganolfan gyswllt, yn dangos ble mae staff yn gweithio, teitlau eu swyddi a phwy sy'n siarad ac yn dysgu Cymraeg. Pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth dros y ffôn neu gyfleusterau tebyg i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd, byddwn yn rhoi gwasanaeth Cymraeg. Caiff ei hysbysebu ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg a bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

5.4 CYFARFODYDD CYHOEDDUS A CHYNADLEDDAU

5.4.1 CYFARFODYDD CYHOEDDUS A CHYNADLEDDAU – TREFNIADAU GWEINYDDOL

Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol o Gymraeg i Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus oni bai bod pawb fydd yn cymryd rhan yn defnyddio'r un iaith.

Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog a byddant naill ai'n dweud y bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i'n hysbysu ymlaen llaw ynghylch pa iaith sydd orau ganddynt.

Byddwn yn annog pobl i gyfrannu yn Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac yn dewis aelodau staff cymwys sy'n gallu siarad Cymraeg i fynd iddynt. Byddwn yn paratoi papurau dwyieithog a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ac yn gwneud yn siŵr y bydd adroddiadau a phapurau a gynhyrchir ar ôl y cyfarfod yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu a oes angen eu darparu yn Gymraeg. Wrth gynnal yr asesiad hwn, byddwn yn ystyried pa iaith sydd orau gan y rhai sy'n mynd i'r digwyddiad.

Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd, byddwn yn penderfynu pa iaith sydd orau ganddynt cyn gynted ag y bo modd ac yn gwneud yn siŵr bod aelod cymwys o'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn ymdrin â'r rhai y byddai'n well ganddynt siarad Cymraeg.

Bydd staff gweinyddol yn cyfarch, rhoi cyfarwyddiadau ac yn ymateb yn Gymraeg ac yn Saesneg yn nerbynfeydd pob cynhadledd a chyfarfod dwyieithog.

Bydd y bathodynau enwau a ddarperir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar gyfer y rhai sy'n mynd i gyfarfodydd neu gynadleddau yn ddwyieithog.

Mewn cyfarfodydd dwyieithog, bydd y cadeirydd yn dechrau'r cyfarfod gyda chyfarchiad dwyieithog ac yn tynnu sylw at y gwasanaeth cyfieithu sydd ar gael.

Pan fyddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus, byddwn yn gwneud yn siŵr fod pob elfen o gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys wrth siarad â nhw. Byddwn yn gofyn i'r rhai sy'n cymryd rhan a fyddai'n well ganddynt ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.

5.4.2 CYFARFODYDD MEWNOL Y STAFF

Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cynnal y ddau gyfarfod staff ar gyfer Cymru gyfan yn ddwyieithog. Bydd staff yn cael eu hannog i gyfrannu yn yr iaith sydd orau ganddynt. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael yn y cyfarfodydd hyn.

Bydd pob cyfarfod grŵp yn dechrau ac yn gorffen yn ddwyieithog.

5.4.3 CYFARFODYDD/YMWELIADAU GAN YSGOLION A GRWPIAU GWIRFODDOL

Bydd staff y Comisiwn Coedwigaeth sy'n cynnal ymweliadau gydag ysgolion a grwpiau gwirfoddol yn rhoi'r dewis iddynt gynnal yr ymweliad naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

6. DELWEDD GYHOEDDUS Y COMISIWN COEDWIGAETH

6.1 YMGYRCHOEDD CYHOEDDUS, ARDDANGOSFEYDD A HYSBYSEBU

Bydd yr holl gyhoeddusrwydd, gwybodaeth i'r cyhoedd, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru'n cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg os yw'r fersiwn Saesneg yn cael ei gylchredeg ledled Prydain. Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yn yr un modd. Dyma'r eithriadau i'r uchod:

- deunydd a ddefnyddir mewn digwyddiadau fel eisteddfodau gan mai dim ond cyhoeddusrwydd, gwybodaeth i'r cyhoedd, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu Cymraeg y gellir ei ddefnyddio;
- deunydd ar gyfer cynulleidfa fach neu arbenigol. Byddwn yn ystyried a oes angen ei gynhyrchu'n ddwyieithog ym mhob achos gan gadw natur y gynulleidfa a'r pwnc dan sylw mewn cof.

Bydd unrhyw hysbysebion a gyhoeddir mewn papurau newydd a chyfnodolion Saesneg sy'n cael eu cylchredeg yng Nghymru'n bennaf neu'n gyfan gwbl, yn ddwyieithog neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd y ddwy fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd a byddant yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd hysbysebion a chyflwyniadau i'r wasg mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg yn unig.

6.2 CYHOEDDIADAU

Byddwn yn cyhoeddi'r holl ddeunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd y Gymraeg yn ymddangos ar yr ochr chwith neu uwchben y Saesneg, ac yr un mor amlwg (e.e. cyhoeddiadau dwyieithog 'wyneb i waered'). Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau ar wahân, am resymau ymarferol oherwydd maint y ddogfen, bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd. Bydd pob fersiwn yn cynnwys neges i ddweud bod y cyhoeddiad hefyd ar gael yn yr iaith arall.

Os nad yw ar gael am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn uwch na phris cyhoeddiad uniaith. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg a gyhoeddir ar wahân yr un pris.

Bydd rhai o'r adroddiadau gwyddonol a thechnegol sy'n seiliedig ar waith Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr ac sydd ar gyfer cynulleidfa arbenigol a bach yn cael eu cyhoeddi yn Saesneg yn unig. Bydd dogfennau eraill fel diwygiadau o Safon Coedwigoedd y DU a Chanllawiau Coedwigaeth sy'n trin a thrafod mwy nag un polisi neu ar gyfer cynulleidfa ehangach, yn cael eu cyhoeddi'n gwbl ddwyieithog. Mae categori canolig wedi dod i'r amlwg o ran cyhoeddiadau technegol lle bydd y fersiwn Gymraeg ar gael ar y wefan yn unig a'i hargraffu yn ôl y galw.

Bydd y penderfyniad ynghylch a oes angen fersiwn Gymraeg o ddogfennau gwyddonol a thechnegol, ar wahân i'r rhai a nodwyd yn y paragraff uchod, yn cael ei wneud ar sail system sgorio y bydd y Bwrdd yn cytuno arni. Mae'n nodi'r glir pa eitemau fydd bob amser yn ddwyieithog a pha rai fydd mewn un iaith fel arfer, yn ogystal â sut bydd y fersiynau hyn ar gael. Bydd y meini prawf hyn yn berthnasol ar gyfer pob cyhoeddiad newydd gan gynnwys diwygiadau.

6.3 FFURFLENNI A DEUNYDD EGLURHAOL CYSYLLTIEDIG

Byddwn yn gwneud yn siŵr fod pob ffurflen a deunydd eglurhaol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen fel arfer a bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefan.

Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, am resymau ymarferol oherwydd maint y ddogfen, bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd. Byddwn yn gwneud yn siŵr y bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yn yr un modd. Bydd pob fersiwn yn cynnwys neges i ddweud bod y cyhoeddiad hefyd ar gael yn yr iaith arall.

Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn gwneud yn siŵr bod ffurflenni'n cael eu hanfon yn ddwyieithog yn unol â'n cynllun.

6.4 GWEFAN A THECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

Byddwn yn cynnal gwefan gwbl ddwyieithog. Bydd pob cyhoeddiad Cymraeg a Saesneg ar gael ar ein gwefan ar yr un pryd. Pan fyddwn yn dylunio gwefannau newydd neu'n aildatblygu ein gwefan gyfredol, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Meddalwedd Ddwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg (<http://www.byig-wlb.org.uk/english/publications/Pages/PublicationItem.aspx?puburl=/English/publications/Publications/3963.pdf>) ac unrhyw arweiniad arall gan y Bwrdd am ddatblygu gwefannau.

Pan fyddwn yn cynnwys cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefan, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu cynnwys ar yr un pryd.

Byddwn yn ystyried yr angen i roi gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn wrth ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a

chyfathrebu. Wrth ddatblygu neu gaffael systemau TGCh, byddwn yn ystyried safonau TGCh Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i wneud yn siŵr eu bod yn gallu rhoi gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

6.5 HUNANIAETH GORFFORAETHOL

Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, ein manylion cyswllt, ein logo, ein sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein deunydd swyddfa a deunyddiau fel cyhoeddiadau, hysbysebion, cardiau busnes, bathodynau adnabod, trwyddedau, tocynnau parcio, cardiau cydnabod, slipiau cyfarch, gwahoddiadau yn ogystal â cherbydau, adeiladau ac arddangosiadau'r Comisiwn. Bydd y Gymraeg ar y chwith neu uwchben y Saesneg, ac yr un mor amlwg.

Rhaid i faint, darllenadwyedd ac amlygrwydd y testun ar bob deunydd lynu at egwyddor cydraddoldeb. Gallem ddefnyddio brandiau Cymraeg yn unig ar gyfer rhai cynlluniau.

6.6 ARWYDDION YNG NGHYMRU

Byddwn yn gwneud yn siŵr y bydd ein holl arwyddion parhaus a dros dro sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yr un fath o ran maint, darllenadwyedd ac amlygrwydd. Byddwn yn dilyn arweiniad 'Arferion Gorau ar gyfer Arwyddion Dwyieithog' Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n cynnwys:

- Dylai arwyddion fod yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg ar y chwith neu uwchben y Saesneg
- Rhaid i'r Gymraeg a'r Saesneg fod yr un mor weladwy a darllenadwy a dylid gallu gwahaniaethu rhwng y ddwy yn rhwydd – gellir defnyddio dulliau dylunio fel lliwiau gwahanol i'r testun i wneud hyn
- Ni ddylai arwyddion gynnwys cyfuniad o destun italig a thestun cyffredin – nac amrywio o ran maint y ffont – i wahaniaethu rhwng yr ieithoedd
- Os oes nifer o arwyddion cysylltiedig – er enghraifft yn yr un ardal – dylai pob un gadw at yr un dull o wahaniaethu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Gall arwyddion mewn digwyddiadau fel yr eisteddfod fod yn Gymraeg yn unig. Os oes arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd eu diwyg, maint, ansawdd ac amlygrwydd yr un fath.

6.7 HYSBYSIADAU SWYDDOGOL, HYSBYSIADAU CYHOEDDUS A HYSBYSIADAU RECRIWTIO STAFF, DATGANIADAU I'R WASG A CHYSYLLTU Â'R CYFRYNGAU

Bydd datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg yng Nghymru yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg. Bydd datganiadau dwyieithog i'r wasg ar ein gwefan. Byddwn yn gwneud yn siŵr fod siaradwyr Cymraeg ar gael ar gyfer cyfweiliadau gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff mewn papurau newydd (neu gyfryngau tebyg) Saesneg a ddsberthir yng Nghymru'n unig neu'n bennaf yn ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd y fersiynau Cymraeg a

Saesneg yr un fath o ran diwyg, maint, ansawdd ac amlygrwydd. Bydd yr hysbysiadau yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Gymraeg.

Yn y cyfryngau Saesneg, gellir hysbysebu am swyddi yn Gymraeg os yw'n hanfodol fod yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu siarad Gymraeg, gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Gall hysbysiadau recriwtio mewn cylchgronau Saesneg a werthir ledled y DU fod yn Saesneg oni bai bod gallu siarad Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd. Os felly, gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog neu yn Gymraeg gyda disgrifiad byr yn Saesneg. Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, cyhoeddus neu ar gyfer recriwtio staff a gyflwynir mewn manau eraill o Gymru fod yn ddwyieithog.

7. RHOI'R CYNLLUN AR WAITH

7.1 STAFFIO

Byddwn yn cadw at yr *Arweiniad am Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog yng Nghymru* gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (<http://www.byig-wlb.org.uk/english/publications/Pages/PublicationItem.aspx?puburl=/English/publications/Publications/Promoting%20and%20Facilitating%20Bilingual%20Workplaces.pdf>)

7.2 STRATEGAETH SGILIAU DWYIEITHOG

Bydd y Comisiwn yn cynnal Strategaeth Sgiliau Dwyieithog i reoli ei adnoddau sgiliau yn unol â'r dull a argymhellir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

<http://alpacorn.forestry.gov.uk:7777/pls/portal/docs/PAGE/ECONNECT/FC%20WALES/FCW%20HR%20TEAM/WMB%2029%2010%20BILINGUAL%20SKILLS%20STRATEGY%20REPORT.DOC>
Caiff lefel y Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd ei hamlygu yn unol â'r Strategaeth hon.

O ran rhoi'r Strategaeth ar waith, Rheolwyr Unedau fydd yn pennu yn y lle cyntaf pa sgiliau iaith sy'n ofynnol ar gyfer swyddi newydd a bydd Swyddog y Gymraeg yn asesu ac yn cymeradwyo hyn. Mae'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn cynnwys arweiniad i gynorthwyo rheolwyr i wneud eu penderfyniadau cychwynnol am ba sgiliau Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi penodol. Os na cheir cytundeb, caiff lefel y sgiliau iaith ar gyfer y swydd ei phennu gan yr uwch-reolwr perthnasol a Chyfarwyddwr Cymru, os oes angen.

Ar gyfer rhai swyddi, bydd angen i ddeiliad y swydd fod yn gwbl rugl, naill ai o ran siarad Gymraeg neu allu siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg. Mewn achosion o'r fath, rhaid cael sgiliau dwyieithog ar unwaith a dylai'r swyddog fod yn rhugl pan gaiff ei benodi. Ar gyfer rhai swyddi eraill lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, hwyrach y bydd yn dderbyniol penodi rhywun nad yw'n gallu siarad Gymraeg neu rywun sy'n dysgu Gymraeg ar yr amod y bydd yn dysgu Gymraeg o fewn amserlen bendant hyd at y safon sy'n ofynnol i gyflawni anghenion y swydd. Bydd staff a benodir ar gyfer y swyddi hyn yn dilyn rhaglen ddysgu benodedig dros gyfnod penodol i'w galluogi i gyrraedd y safon ofynnol erbyn diwedd y cyfnod

Mae angen i ni ddatblygu staff hefyd i gyflwyno'r gwasanaeth dwyieithog hwn i'r cyhoedd. Bydd angen i ni ymateb i unrhyw brinder sgiliau Cymraeg drwy recriwtio a dethol yn fewnol ac yn allanol drwy:

- ennill neu wella sgiliau;
- aildrefnu dyletswyddau a chyfrifoldebau/ail-ddylunio swyddi.

Asesir cynnydd y gwaith o roi'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ar waith drwy baratoi adroddiadau cynnydd ac adroddiadau monitro yn rheolaidd ar gyfer Grŵp Monitro'r Gymraeg a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

7.3 HYFFORDDIANT YMWHYBYDDIAETH O'R GYMRAEG

Ar gyfer pob swydd yn y Comisiwn Coedwigaeth, mae gallu ynganu enwau lleoedd ac enwau personol Cymraeg, yn ogystal â'r gallu i ddeall a defnyddio ymadroddion sylfaenol yn Gymraeg, yn ofyniad hanfodol. Rhaid i'r holl staff allu defnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfarchion, gan gynnwys dechrau cyfarfodydd ac wrth ateb y ffôn.

Rhoddir hyfforddiant i'r holl staff newydd yn rhan o'u rhaglen sefydlu. Caiff staff sydd heb unrhyw sgiliau dwyieithog y cyfle i ddilyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg er mwyn iddynt allu ynganu enwau pobl a lleoedd yn Gymraeg a defnyddio ymadroddion Cymraeg sylfaenol.

7.4 GOFYNION LLENWI SWYDDI

Mae'r swyddi lle mae rhuglder yn y Gymraeg yn hanfodol yn swyddi allweddol lle mae cryn dipyn o gyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd a byddwn yn gwneud popeth y gallwn i fodloni'r targedau a bennwyd gennym wrth benodi ar gyfer y swyddi hyn. Mae angen staff cymwys sy'n gallu siarad Cymraeg ym mhob un o'n gweithleoedd a'n gwasanaethau yng Nghymru sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd (boed yn ysgrifenedig neu ar lafar) i'w galluogi i roi gwasanaeth llawn i'r cyhoedd yn Gymraeg.

Rydym wedi amlygu'r gweithleoedd neu'r swyddi hyn lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol (o ran siarad, darllen ac ysgrifennu – hyd at lefelau penodol).

Diffinnir hyn fel elfen o weithle neu dîm, neu mae'n gysylltiedig â rôl benodol, er enghraifft: Rhaid cael sgiliau Cymraeg mewn swyddi a/neu dimau sy'n:

- Darparu gwasanaethau rheng flaen, er enghraifft mewn derbynfeydd a'n canolfan gysylltu.
- Prif fan cyswllt gyda chyhoedd sy'n siarad Cymraeg a/neu sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau, elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol.
- Man cyswllt ar gyfer dogfennau ymgynghori, prosiectau a gwasanaethau.
- Trefnu a/neu'n mynd i gynadleddau/digwyddiadau allanol y Comisiwn Coedwigaeth yn rheolaidd;
- Gweinyddu grantiau, tendrau, ffurflenni cais.
- Darparu gwasanaethau/gwybodaeth i'r cyhoedd fel prif ddiben.

7.4.1 YMRWYMIADAU'R TIMAU

Yn ogystal, bydd sgiliau Cymraeg penodol yn hanfodol ar gyfer rhai swyddi er mwyn bodloni ymrwymiadau'r timau. Fel sefydliad, cael staff ag arbenigedd ar draws pob maes pwnc sy'n gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn ddigonol yw'r nod. Ym mhob un o'r meysydd a'r gwasanaethau hyn, bydd y Comisiwn yn ceisio gwneud yn siŵr fod gwasanaeth o'r un safon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn yr un modd drwy roi ei Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ar waith.

Bydd y Comisiwn yn ceisio gwneud yn siŵr bod aelodau staff sy'n rhugl yn y Gymraeg ar gael bob amser yn ein swyddfeydd a'n timau i gynnig gwasanaeth Cymraeg.

Bydd Rheolwr pob Uned yn dilyn y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a luniwyd o dan y Cynllun hwn wrth bennu neu adolygu ymrwymiadau'r timau a pharatoi manylebau unigolion cysylltiedig.

[http://www.byig-](http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/defnyddio/Pages/Recriwtioa%27rIaithGymraeg.aspx)

[wlb.org.uk/Cymraeg/defnyddio/Pages/Recriwtioa%27rIaithGymraeg.aspx](http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/defnyddio/Pages/Recriwtioa%27rIaithGymraeg.aspx)

Yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg, byddwn yn monitro'n barhaus faint o siaradwyr Cymraeg sy'n rhoi gwasanaethau i'r cyhoedd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Gwneud yn siŵr bod y niferoedd yn adlewyrchu ymrwymiad Comisiwn Coedwigaeth Cymru at weithredu'n effeithiol fel sefydliad dwyieithog naturiol fydd y nod.

7.4.2 YMGEISWYR ALLANOL

Bydd ceisiadau ar gael yn yr un modd yn y ddwy iaith yn ogystal â rhagor o fanylion am y swydd a dogfennaeth berthnasol am gyflogaeth yn yr iaith sydd orau ganddynt.

7.4.3 CYFWELIAD

Os yw ymgeisydd yn gofyn am gyfweiliad yn Gymraeg, byddwn yn cyfweild yn Gymraeg ac yn Saesneg oherwydd bod angen trin y ddwy iaith yn yr un modd yn unol â chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg am recriwtio.

- Os yw rhuglder yn Gymraeg ac yn Saesneg yn hanfodol ar gyfer swydd, cynhelir cyfweiliadau ar gyfer y swydd honno yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd angen i o leiaf un aelod o'r panel fod yn siaradwr Cymraeg rhugl i asesu gallu'r ymgeisydd yn Gymraeg yn erbyn y safon ofynnol. Cynhelir prawf iaith hefyd ar wahân a'i asesu gan aelod y panel sy'n siarad Cymraeg.
- Bydd arweiniad a chyfarwyddiadau safonol yn cael eu paratoi ar gyfer aelodau'r panel sy'n gyfrifol am werthuso sgiliau Cymraeg.
- Cyflwynir cytundebau cyflogaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â'r iaith y mae'r ymgeisydd wedi datgan sydd orau ganddo.

7.5 MENTRAU ALLANOL

Gall recriwtio staff cymwys sy'n gallu siarad Cymraeg ar gyfer rhai swyddi fod yn dalcen caled.

Mae'r Comisiwn yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem benodol hon mewn sawl ffordd:-

- Rydym yn un o bartneriaid arweiniol cynllun AmNawdd sy'n noddi myfyrwyr Cymraeg i ddilyn cyrsiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd mewn addysg uwch yn ogystal â chynnig lleoliadau gwaith i fyfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun.



- Rydym yn cyfrannu at Weithgor Iaith Gymraeg Sector yr Amgylchedd. Dyma bartneriaeth allweddol sy'n dod â chynrychiolwyr ar draws sectorau amgylcheddol, addysg uwch a chynllunio iaith ynghyd.
- Er mwyn cyrraedd ymgeiswyr posibl sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg, byddwn yn mynd i brifysgolion Cymreig, colegau addysg bellach ac ysgolion Cymraeg/dwyieithog wrth gynnal ymweliadau sy'n ymwneud â gyrfaedd (gan gynnwys ffeiriau gyrfaedd a swyddi).

7.6 DYSGU A DATBLYGU STAFF

Bydd y Comisiwn yn rhoi lefelau priodol o gymorth dysgu gan gynnwys amser a ffioedd cyrsiau yn unol â'n meini prawf ar gyfer Dysgu a Datblygu i helpu staff gael hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg.

Nodir gofynion dysgu yn rhan o'r broses sefydlu i staff newydd ac yn rhan o ofynion datblygu parhaus i staff cyfredol. Caiff y rhaglen ddysgu y cytunir arni ei hymgorffori yng Nghynlluniau Dysgu Unigol staff newydd a chyfredol ac fe'i gwerthusir drwy ein system Rheoli Perfformiad.

Mae arweiniad ar gael am gyrsiau Cymraeg a dewisiadau dysgu.

Bydd cymorth ymarferol ar gael drwy Gynllun Mentora os yw'r dysgwr eisiau cymryd rhan. Bydd amser yn cael ei neilltuo yn rhan o'u Cynllun Datblygu Swydd i gwrdd gyda'u Mentor yn rheolaidd am sgwrs anffurfiol gan ddefnyddio'r sgiliau maent wedi'u dysgu mewn gwersi Cymraeg. Cyflwynir Siop Siarad mewn swyddfeydd lle mae nifer o bobl yn dysgu Cymraeg.

Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn annog siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, a chefnogi ymdrechion dysgwyr.

I fesur cynnydd yr aelodau staff sydd wedi dilyn rhaglen dysgu Cymraeg penodol i gyrraedd targedau a bennwyd yn rhan o'u contract cyflogaeth, bydd asesydd allanol yn cynnal asesiadau rheolaidd. Bydd y rhaglenni'n cael eu monitro'n ofalus a bydd y Comisiwn yn rhoi cefnogaeth lawn i gynnal y lefel cyrhaeddiad sy'n ofynnol. Os na fydd targedau cyrhaeddiad yn cael eu cyrraedd yn yr amser dan sylw, adolygir perfformiad deiliad y swydd yn unol â'r contract cyflogaeth.

8. TREFNIADAU GWEINYDDOL MEWNOL I ROI'R CYNLLUN AR WAITH

Mae ein sefydliad yn awdurdodi, cefnogi ac yn cymeradwyo'r dulliau mesur yn y cynllun hwn gant y cant. Rheolwyr fydd yn gyfrifol am weithredu'r elfennau o'r cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

Mae gan y Cynllun Iaith Gymraeg gynllun gweithredu canolog fydd yn dod i rym ar y dyddiad y rhoddir y cynllun ar waith. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad am

gynnydd yn erbyn pob targed. Gwneud yn siwr ein bod yn cyflwyno'r ymrwymadau sydd yn y cynllun cyn gynted ag y bo modd yw'r nod cyffredinol.

Bydd y cynllun ar gael i'n staff a'r cyhoedd yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir ar ein gwefan mewn man amlwg a bydd ar gael i'n holl staff. Caiff nodiadau arweiniad y staff eu diwygio i adlewyrchu'r dulliau mesur yn y cynllun hwn. Byddwn yn trefnu sesiynau hysbysu a hyfforddi ar gyfer ein staff i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn ac i egluro sut bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

Mae gennym wasanaeth cyfieithu sy'n cynnwys aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Bydd unrhyw gysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru nad oes cyfeiriad penodol ato yn y cynllun hwn yn cael ei wneud mewn modd sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion cyffredinol a ymgorfforir yn y cynllun.

8.1 DEDDF RHYDDID GWYBODAETH A RHEOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL

Byddwn yn cadw at y cyngor a gyflwynodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth am Ddeddf yr Iaith Gymraeg, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Pan fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn eu cyfieithu i'r iaith sydd orau gan yr ymgeisydd.

8.2 MONITRO'R CYNLLUN

Byddwn yn monitro ein cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a bennwyd yn y cynllun gweithredu ac yn rhoi adroddiad i Gyfarwyddwr Cymru. Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd cyfredol yn cyfeirio at gynnydd o ran cyflwyno'r cynllun hwn.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cytuno i fabwysiadu fframwaith newydd ar gyfer monitro a rhoi adroddiad am roi ein Cynllun Iaith Gymraeg ar waith i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a bydd yn rhoi adroddiad blynyddol bob mis Mehefin.

Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cyflwyno adroddiad am:

- Roi amserlen y cynllun ar waith
- Prif-ffrydio'r Gymraeg drwy baratoi copi o'r dulliau cyffredinol y mae'r sefydliad yn eu defnyddio i asesu effaith polisiâu, cynlluniau a deddfwriaeth newydd ar y Gymraeg
- Enghreifftiau o ddogfennau polisi, deddfwriaeth neu gynlluniau newydd y mae'r sefydliad wedi'u cynllunio neu eu cynhyrchu sy'n gwneud yn siwr bod y Gymraeg yn brif ystyriaeth
- Monitro gallu'r staff rheng flaen i gyflwyno gwasanaethau fel gwasanaethau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb yn unol â'r cynllun
- Asesu cydymffurfriad gwasanaethau a gyflwynir drwy drydydd parti bob blwyddyn
- Gwybodaeth am gymorth y mae'r sefydliad yn ei roi i staff i ddysgu Cymraeg a'r ymdrechion i wneud yn siwr bod y staff yn ymwybodol o'r iaith
- Asesu i ba raddau yr ystyrir anghenion defnyddwyr y gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg wrth ddatblygu a chaffael gwasanaethau TG newydd

- Nifer y cwynion y mae'r sefydliad wedi'i dderbyn am fethu â rhoi gwasanaethau yn Gymraeg

8.3 ADOLYGU'R CYNLLUN

Bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd bob pedair blynedd. Ni chaiff unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb sêl bendith Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

8.4 YMDRIN Â CHWYNION AC AWGRYMIADAU AR GYFER GWELLA

Dylai cwynion ynghylch y cynllun hwn neu awgrymiadau ar gyfer gwella, gael eu hanfon at Gyfarwyddwr Cymru i'r cyfeiriad canlynol:

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

Neu anfonwch e-bost i: fcwenquiries@forestry.gsi.gov.uk

Byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd i ddatrys cwynion ac yn ystod unrhyw archwiliadau a gynhelir o dan Adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru yw adran goedwigaeth Llywodraeth Cymru ac mae'n atebol i Weinidogion Cymru

Manylion cysylltu:

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

Ffôn: 0300 068 0300

Ffacs: 0300 068 0301

E-bost: fcwenquiries@forestry.gsi.gov.uk

Gwefan: www.forestry.gov.uk/wales

Cyhoeddwyd gan – Gomisiwn Coedwigaeth Cymru

© Hawlfraint y Goron 2011

Atodiad 1

GWEITHLEOEDD DWYIEITHOG – CRYNODEB O GAMAU MEWNOL

CEFNDIR

Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cadw at gyngor y Bwrdd yn *Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog* (<http://www.byig-wlb.org.uk/english/publications/Pages/PublicationItem.aspx?puburl=/English/publications/Publications/Promoting%20and%20Facilitating%20Bilingual%20Workplaces.pdf>) am ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithleoedd a sut i gyflawni hyn.

Byddwn yn annog ein staff i ymfalchïo yn y Gymraeg ac ymroddiad Comisiwn Coedwigaeth Cymru i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

Byddwn yn gweithredu'n gynyddol fel sefydliad dwyieithog naturiol ac yn cynllunio i gynyddu cyfran y staff sy'n gallu siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg er mwyn:

- i. trefnu ymrwymadau'r cynllun a;
- ii. lleihau dibyniaeth y staff ar y gwasanaeth cyfieithu.

Rydym yn ceisio meithrin rhagor o ddiddordeb yn ein gwaith ymysg siaradwyr a dysgwyr Cymraeg er mwyn denu mwy o bobl o gymunedau Cymraeg i gyflwyno ceisiadau i ddilyn gyrfaedd gyda'r Comisiwn Coedwigaeth a'r sector coedwigaeth ehangach;

Rydym am chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo a datblygu faint o Gymraeg a ddefnyddir drwy ein gwasanaethau a'n harbenigeddau;

Bydd cyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd yn cael ei atgyfnerthu gan ethos Cymraeg cryf yn y gweithle, sy'n cynnwys integreiddio Cymraeg yn llawn ym mhob rhan o waith y sefydliad;

Aelodau'r Bwrdd Rheoli a Rheolwyr Unedau fydd yn gyfrifol am annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle lle bo bynnag y bo hynny'n ymarferol.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG AC ARWEINIAD

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod copi o'r cynllun ar gael ar gyfer pob aelod o staff yn ogystal â'r arweiniad i staff am swyddogaethau penodol timau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y tîm hwnnw i'r cyhoedd. Bydd y cynllun a'r arweiniad i staff ar gael ar fewnwyd y sefydliad hefyd.

CYFATHREBU

Gall aelodau o staff ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn eu gwaith cyn belled y bo hynny'n cydfynd â'r cynllun ac nad ydyw'n amharu ar effeithiolrwydd cyfathrebu mewnol.

Bydd siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael eu hannog i wneud rhagor o ddefnydd o'u Cymraeg llafar ac ysgrifenedig ym mhob rhan o'u gwaith a dylai siaradwyr Cymraeg gefnogi ymdrechion y dysgwyr yn hyn o beth.

Bydd technoleg gyfrifiadurol Gymraeg, Word, Excel a rhaglen wirio gramadeg/sillafu Cysgliad yn cael eu cynnig i'r holl staff.

Bydd enw, manylion y swydd a manylion cyswllt yn ddwyieithog ar lofnodion awtomatig e-bost yr holl staff.

Bydd pob neges e-bost i ddweud nad yw'r staff yn y swyddfa yn ddwyieithog.

Bydd ein staff yn ateb y ffôn gyda chyfarfod dwyieithog ac yn defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol, gan gynnwys eu ffonau symudol.

Bydd neges ddwyieithog wedi'i recordio ar beiriannau ateb swyddfeydd lleol sydd wedi'u cysylltu â'r ganolfan gyswllt. Bydd y neges Gymraeg yn dod cyn y neges Saesneg.

Mae cyfeirlyfr ffôn mewnol y Comisiwn, sydd ar gael i'r holl staff a thîm y ganolfan gyswllt ar y fewnrwyd, yn dangos ble mae staff yn gweithio, teitlau eu swyddi, a phwy sy'n siaradwyr Gymraeg rhugl ac yn dysgu.

CYFLEOEDD DYSGU A DATBLYGU

Rhoddir hyfforddiant i holl staff newydd sy'n dilyn Cwrs Gweithwyr Newydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ogystal â staff cyfredol i wneud yn siwr bod pawb yn gallu ynganu enwau lleoedd ac enwau pobl yn Gymraeg a defnyddio ymadroddion Gymraeg syml.

CYFARFODYDD

Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cynnal y ddau gyfarfod staff ar gyfer Cymru gyfan yn ddwyieithog. Bydd staff yn cael eu hannog i gyfrannu yn yr iaith sydd orau ganddynt. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael yn y cyfarfodydd hyn.

Bydd pob cyfarfod grŵp yn dechrau ac yn gorffen yn ddwyieithog.

GRŴP MONITRO'R IAITH GYMRAEG

Mae Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg wedi'i sefydlu i oruchwylio sut mae Cynllun Iaith Gymraeg Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n cael ei roi ar waith.

Atodiad 2

COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU



CYNLLUN IAITH GYMRAEG

CYNLLUN GWEITHREDU

Adran	Cam(au)	Dyddiad targed	Cyfrifoldeb
3	Gweledigaeth		
3	Parhau i gefnogi Cynllun Amnawdd i Fyfyrrwyr drwy gynnig lleoliadau gwaith i fyfyrwyr Cymraeg a chyfraniad ariannol blynyddol. Cyfrannu fel partner amlwg i reoli'r cynllun	Mehefin/ Gorffennaf yn flynyddol	Tîm AD Cymru Rheolwyr Unedau
4	Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaethau		
4.1	Asesu gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg ar y dechrau ar gyfer pob polisi a phrosiect newydd yng Nghymru gan ddefnyddio'r dull asesu a ddatblygwyd.	Rhagfyr 2012	Tîm AD Cymru Tîm Polisiâu
4.1	Monitro bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn dogfennau Dadansoddiad Cydraddoldeb	Blynyddol	Tîm AD Cymru Rheolwyr Unedau Bwrdd Rheoli
4.2	Gwneud yn siwr bod copi o'r cynllun a'r nodiadau arweiniad ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff ar y fewnwyd yn ogystal â gwneud yn siwr bod copïau gan y staff sydd heb gyfrifiadur	Rhagfyr 2012	Tîm AD Cymru Aelodau o Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg Rheolwyr Unedau
4.3	Sicrhau bod ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yr un fath yn Gymraeg ac yn Saesneg ym mhob	Rhagfyr 2012	Tîm AD Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg



	<p>maes busnes a bod y Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg yn monitro hyn yn rhan o'u dyletswyddau bob dydd</p> <p>Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn Holiadur Cyn-cymhwyso a ddefnyddir yn y broses gaffael yn unol â chynngor gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg</p>	Rhagfyr 2012	Tîm AD Cymru Ymgynghorydd Caffael
5 Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg			
5.1 5.1.1 5.2	Nodyn Arweiniad 4 - Bydd cyfathrebu ysgrifenedig ac electronig a roddir ar y fewnrwyd yn cael ei ddiweddarau yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Swyddfa ac anfonir nodyn atgoffa at bob aelod o staff	Adolygu'r dasg a gwblhawyd bob mis Mehefin	Tîm AD Cymru Gwasanaethau Swyddfa
5.1.2	Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu a'r Nodyn Arweiniad i'r holl staff a'u rhoi ar y Fewnrwyd ar Dechnoleg Gyfrifiadurol Gymraeg mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr TG a Chyfathrebu	Tachwedd 2011	Tîm AD Cymru Rheolwr TG a Chyfathrebu
5.3 5.3.1 5.3.2	Nodyn Arweiniad 3 - Rhoi manylion manau cyfathrebu dros y ffôn a derbynfydd ar y fewnrwyd a'u diweddarau yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig	Adolygu'r dasg a gwblhawyd bob mis Ebrill	Tîm AD Cymru



5.4.1	Mae angen ysgrifennu nodiadau arweiniad am Gynnal Cyfarfodydd Cyhoeddus a Mewnol a Chynadledau, a'u cyflwyno i staff a'u rhoi ar y fewnrwyd	Ionawr 2012	Tîm AD Cymru
6 Delwedd Gyhoeddus Comisiwn Coedwigaeth Cymru			
6.2 6.3 6.4 6.5 6.6	Arweiniad am frandio, arwyddion a thempledi ar gael ar y fewnrwyd a'i ddiweddarau yn ôl yr angen	Adolygu'r dasg a gwblhawyd yn flynyddol	Rheolwr Dehongli
7 Rhoi'r Cynllun ar Waith			
7.1	Rhoi nodiadau arweiniad am recriwtio ar dudalennau Adnoddau Dynol a'r Iaith Gymraeg ar y fewnrwyd a'u diweddarau'n rheolaidd	Adolygu'r dasg a gwblhawyd yn flynyddol	Tîm AD Cymru
7.3	Nodyn Arweiniad 2 - rhoi dewisiadau mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg ar y fewnrwyd yn ogystal â meini prawf ar gyfer Dysgu a Datblygu	Adolygu'r dasg a gwblhawyd bob mis Awst	Tîm AD Cymru
7.3	Swyddog y Gymraeg i ddilyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg er mwyn ei gyflwyno i bawb sy'n dilyn Cyrsiau Gweithwyr Newydd a staff cyfredol sy'n gofyn am symud ymlaen i lefel 1	Hydref 2011	Swyddog y Gymraeg
7.6	Rhoi cefnogaeth barhaus i ddysgwyr Cymraeg drwy Gynllun Mentora, cyngor ar y fewnrwyd Annog pobl i sefydlu Siop	Rhagfyr 2011	Tîm AD Cymru Mentoriaid



	Siarad ym mhob swyddfa drwy gwrdd â dysgwyr a helpu i ddechrau'r broses		
--	---	--	--

8 Trefniadau Gweinyddol Mewnol i Roi'r Cynllun ar Waith			
8	Paratoi Cynllun Cyfathrebu i'r busnes ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig	Hydref 2011	Tîm AD Cymru Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg
8.2	Comisiwn Coedwigaeth Cymru i gyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Mehefin Blynyddol	Tîm AD Cymru Rheolwyr Unedau Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg
	Adolygu'r cynllun bob pedair blynedd a chael sêl bendith Bwrdd yr Iaith Gymraeg	Mehefin 2015	Tîm AD Cymru Rheolwyr Unedau Bwrdd Rheoli
8.4	Rhoi nodiadau arweiniad am y weithdrefn gwyno ar y fewnrwyd a'u diweddarau	Adolygu'r dasg a gwblhawyd bob mis Mawrth	Tîm yr Ysgrifenyddiaeth